

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Orffennaf 2017

Presennol - Gareth Wynne, Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Janet Charlton, Terry Bullock, Siân Godbert, Nick Corney, Cyng Sir Elizabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriadau Terry Bullock

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd, cofnodion cyfarfod 12fed Fehefin 2017.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.2] Creu Mynedfa Newydd i'r Neuadd Goffa

Y Cadeirydd a'r clerch i benodi adeiladwr i ymgymryd â'r gwaith ar dderbyniad tri pris

[1.3] Arwyddion 20 m.y.a. Ffordd yr A5 Pentre' Du

Deallwyd bod y mater i gael ei drafod ymhellach gyda'r Asiant Briffyrdd.

[1.4] Marciau Ffordd ar gyfer Arhosfa Bws/ A5 Pentre' Du

Eglurodd y clerch bod yr asiant briffyrdd yn trefnu i wneud y gwaith.

[1.5] Sedd Wag y Cyngor

Dyweddodd y clerch nad oedd cais wedi ei dderbyn. Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

[1.6] Lleoliad ar Gyfer Hen Giosg Coch BT

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.7] Casglu Arian o Wely'r Afon/Rhaeadr Ewynno

Cytunodd Siân Godbert i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

[1.8] Adnewyddu Biniau Cwn

Penderfynwyd talu'r gost ar gyfer biniau newydd yn y pentref.

[1.9] Ffens Newydd/Cae Llan

Dyweddodd y clerch fod y ffens newydd i gael ei gosod o fewn yr wythnosau nesaf.

[2] Coed Afalau

Deallwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Ysgol Betws-y-Coed ynglŷn â chynnig i blannu coed afalau yng nghae'r ysgol.

## Y brif Agenda

### [2.1] Mr Glenn Evans/ Preswylwyr Stryd y Felin

Croesawyd Mr Evans i'r cyfarfod ac amlinellodd ynglŷn â materion yn ymwneud a gweithwyr sydd yn denantiaid yn Stryd y Felin ac yn gyflogedig gan y Royal Oak. Eglurodd ynglŷn â swyddogaeth a hefyd cyfrifoldeb y perchennog. Dywedodd Mr Evans bod goruchwylwyr y Royal Oak wastad yn barod i wrando ar unrhyw gwyn ac yn parhau i geisio bod yn gymydog da.

### [2.2] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Eglurodd Ms Vicky Kelly ynlgun ac nad oedd y cynllun tai fforddiadwy wedi bwrw ymlaen yn ôl y disgwyliad. Dywedodd bod gwahanol gynigion ar gyfer mynediad i'r A5 o'r safle o dan sylw, a bod disgwyl am gymeradwyaeth gan y Cynulliad.

Cytunodd Ms Kelly i gysylltu gyda'r clerc ynglŷn ar sefyllfa ddiweddara erbyn y cyfarfod nesaf.

### [2.3] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mehefin 2017.

[b] Y Rheadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mehefin 2017.

### [2.4] Lefel Dwr Llyn Elsi

Gan nodi'r cyn bryder lleol i lefel isel y dŵr, y clerc i gysylltu gyda Ystâd Gwydr i geisio eu sylwadau.

### [2.5] Materion Amrywiol

Y clerc i ddilyn ymlaen ynglŷn ar canlynol;

[a] Goleuadau Ffordd yr Orsaf, Dim ond un golau i weld yn gweithio.

[b] Gwrych gyferbyn a Hafan, angen ei dorri.

[2.6] Eglwys Santes Fair, llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor.

[2.7] Parc Cenedlaethol Eryri Cynllun Datblygiad Diwygiedig.

Cadeirydd \_\_\_\_\_